Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Ebrill 15fed - 2015
am 7.00 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Lewis Davies, Bari Gwilliam, Gill Cheverton, Alwena Roberts (AR) a Rhian Hughes (RH).

2.Ymddiheuriadau - Cyng. Mark Williams(tymor hir), Paul Gash, Dafydd Pritchard, Alwyn Rowlands a Carwyn Jones.

3. Datgan Ddiddordeb
MW ar drafodaeth Tyddyn Waun.

4.Cofnodion
Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed o Fawrth fel rhai cywir gan Cyng. G Cheverton, eilio gan Cyng. A Roberts, wrth newid dau bwynt.
Agorwyd y cyfarfod wrth fynd yn syth i bwynt 8, drafodaeth gyda swyddogion o'r Heddlu. Aethom ymlaen wedyn i bwynt 9

5. Materion yn codi o'r Cofnodion
5.1 **Fynwent Llanddona** – dim newyddion ymhellach.
5.2 **Cerrig ger Llain Gron** – Trafodwyd yr ymateb a dderbyniwyd gan y perchennog. Cyng. L Davies wedi gofyn cael cyfarfod ar y safle gyda swyddog o'r Cyngor Sir.
5.3 **Baw Cŵn –** Wedi anfon siec ymlaen am yr arwyddion.
5.4 **Biniau lleol -** Clerc wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir gan ofyn am fwy o finiau. Heb dderbyn ymateb eto. Cyng. L Davies i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.
5.5 **Graeanu Lôn Hafodty -** Cyng. L Davies wedi cysylltu â Cyngor Cymuned Cwm Cadnant i roi pwysa ar y Cyngor Sir i newid blaenoriaeth y ffordd - dim gwybodaeth bellach. Clerc i gysylltu ar Cyngor Sir i ofyn be ydi sefyllfa gyfreithiol i'r Cyngor Cymuned pwrcasu a lledaenu'r graean ar y ffordd. LD i drafod y mater hefyd gyda Cyngor Cymuned Cwm Cadnant.
5.6 **Lle parcio ger Tai Cyngor** – penderfynwyd gofyn i LD gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir.
5.7 **Dim arwyddion ar lwybr troed ger Fferm Glanrafon** - Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir, disgwyl mwy o wybodaeth oddi wrth BG.
5.8 **Llwybr Tai Bach –** Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir eto, dim wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach. Disgwyl yr adrodd llawn nawr. Clerc i anfon y llythyr ymlaen i Cyng. L Davies.
5.9 **Torri Coed ar Llwybr Tai Bach -** wedi derbyn cwyn oddiwrth Mr Huntington ynglŷn â chyflwr y llwybr troed. Dilyn gwaith torri coed gan Mr O Parry tua 7 wythnos yn ôl, canghennau ayyb wedi cael eu gadael dros y llwybr. MR i ymweld ar safle.
5.10 **Cynllun Datblygu Lleol -** Diwrnod cynghori wedi dod i ben. Nifer o gwynion ynglŷn ar ffordd mae'r ymgynghoriad wedi cymryd lle a bod y safle we ddim yn gyfeillgar i ddefnyddwyr.
5.11 **Arwyddion Cymraeg** - Cyng. L Davies wedi cysylltu ar Cyngor Sir ynglŷn ar mater gan ofyn pam oedd arwydd Eglwys Llanfihangel yn Saesneg. Disgwyl ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
5.12 **Tir Tyddyn Waun** – dim newyddion ymhellach, yn ddwylo'r cyfreithwyr.
5.13 **Hawddfraint dros dir comin i blot Glyndŵr -** wedi derbyn ymateb gan gyfreithiwr yr ymgeisydd, lle maent wedi cytuno i dalu costau cyfreithiol y Cyngor Cymuned ac yn cynnig £100 am yr hawddfraint. Hefyd yn egluro fod yr ymgeisydd wedi gwerthu'r plot. Cyngor Cymuned ddim yn hapus gyda'r cynnig hyn.
Trafodwyd y sefyllfa wrth ddeall fod y perchennog presennol neu'r un blaenorol wedi gwneud mynediad i'r plot heb ofyn. Penderfynwyd trefnu prisiwr i gael pris sylfaenol.

6. Adroddiad gan y Cynghorydd
Dim adrodd y tro yma.

7. Ceisiadau Cynllunio
Dim cais i drafod

8. Heddlu
PCSO Natalie Tookey yn cyhoeddi ei bod hi yn cael ei symud i weithio ar faes arall or Ynys, a gyflwynwyd PCSO Gethin Gilford fel y swyddog newydd i'r ardal hon. Diolchodd y Cadeirydd am y gwaith da maent wedi gwneud yn yr ardal yma.

9. Peilonau
Cawsom gyflwyniad gan aelodau o dîm Grid Genedlaethol am eu cynnig i fwrw ymlaen gyda llinell uwchben newydd i gysylltu gorsaf bŵer Wylfa i'r is-orsaf ym Mhentir. Cynhaliwyd trafodaeth fywiog, lle cawsom nifer o gwestiynau oddiwrth y Cynghorwyr ar gyhoedd. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

10.Cyfrifon
Penderfynwyd talu:-
- Arwyddion Baw Cwn, Xpose Media - £120.00
- Cyflog y Clerc, Ionawr-Mawrth15 - £411.31

11. Ethol Is-Gadeirydd
Oherwydd nad oedd pob Cynghorydd yn bresennol, penderfynwyd symud yr etholiad ymlaen i gyfarfod nesaf.

12.Gohebiaeth
e-bost – Cyng. L Davies – Llain Gron
e-bost – Cyng. L Davies, Lôn Hafoty
llythyr – J Mendoza, Llain Gron
e-bost - Cyng. L Davies, arwydd Cymraeg
e-bost – Papur Menai yn diolch am y rhodd.
e-bost – Mr D Huntington, cwyn llwybr Llwyn Collen
Llythyr- cyfreithiwr plot Glyndŵr

13. UFA:
13.1 Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Lleol, prif sylwadau:-
a) son am glystyru cynghorau cymuned bychain
b) creu "quality status", fel hyfforddi cynghorwyr, Clerc i gael statws Cilca
c) Cynghorau Sir i fonitro'r sector
d) wrth glystyru mae'n bosib colli defnydd o'r iaith Cymraeg
Clerc wedi anfon y linc ymlaen i'r Cynghorwyr.
13.2 Clerc i gwblhau gwaith awdit 2014/15, mewnol 8/05/15, allanol erbyn 28/06/15.
13.3 Grant Elusennol - dyddiad cau am geisiadau 8/5/15. Penderfynwyd gofyn i S Hunt gwneud cais i dorri gordyfiant ar y tir comin. Cyng. G Cheverton i drafod y mater.
13.4 Ymgynghoriad gwasanaeth Bws - dyddiad cau 10/04/15. Nid oes unrhyw effaith ar wasanaethau presennol yn yr ardal hon.
13.5 Bydd cwmni Glendale yn dechrau gwaith torri canghennau sy'n agos i linellau pŵer yn ystod Ebrill a Mai.
13.6 Clerc i anfon cerdyn i Cyng. C Jones.
13.7 Ffos wrth ochr lôn Hafodty wedi cael ei glanhau.

14.Dyddiad cyfarfod nesaf:
Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.
Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.05 o'r gloch.
Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 27/05/15 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd Dyddiad